**Am ba hyd fyddwn ni'n cadw eich data personol**

Bydd Ipsos yn cadw eich data personol naill ai:

- Hyd at 12 mis, neu
- 24 mis os ydych wedi cytuno i Ipsos ailgysylltu â chi at ddiben ymchwil pellach.

Mae Ipsos yn cynnal archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd o'i reolaethau diogelwch gwybodaeth ac arferion gwaith ac mae hefyd wedi'i achredu i'r Safon Ryngwladol ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth, ISO 27001.

Eich hawliau yn ymwneud â'ch data personol

Mae gennych chi nifer o hawliau cyfreithiol yn ymwneud â'ch data personol. Gallwch arfer unrhyw un o'r hawliau hyn trwy gysylltu â ni drwy'r manylion cyswllt isod.

Dan eich hawliau gallwch:

- ofyn am gopi o'ch data personol
- ofyn i gael cywiro unrhyw ddata personol sy'n anghywir neu wedi dyddio
- ofyn i'ch data personol gael ei ddileu
- wrthwynebu prosesu eich data personol
- ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol

**Sut i gysylltu â ni:**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data ar: **barbpanel@ipsos.com**

Os nad ydych yn hapus gyda sut rydym wedi trin eich data personol, hoffem i chi gysylltu â ni yn gyntaf a rhoi cyfle i ni ei gywiro. Ond mae gennych hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth os hoffech wneud hynny.

Gallwch ganfod manylion ynghylch sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn **https://ico.org.uk/global/contact-us/** neu drwy anfon e-bost at **casework@ico.org.uk.** Fel arall, gallwch gysylltu â Barb yn **enquiries@Barb.co.uk**

Hoffai Ipsos a Barb ddiolch i chi am gydweithredu trwy gymryd rhan yn y rhaglen ymchwil bwysig yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, mae croeso i chi ffonio **Ipsos ar 0808 238 5456** neu e-bostio **ukfieldadmin@ipsos.com**

Os ydych chi wedi mwynhau'r cyfweliad hwn ac yn dymuno cael manylion am sut i ddod yn gyfwelydd ymchwil i'r farchnad gallwch ymweld â'n gwefan **www.ipsos.com/interviewers**



Ipsos
Kings House, Kymberley Road,
Harrow, Middlesex HA1 1PT

Ipsos

Barb
What People Watch



# DIOLCH:

## mae'r daflen yma'n esbonio sut y defnyddir eich gwybodaeth

## Ynghylch Barb

Barb yw safon diwydiant y cyfryngau ar gyfer deall yr hyn y mae pobl yn ei wylio.

Mae Barb yn darparu ystadegau gwylio i'r diwydiant teledu yn bennaf ar gyfer sianeli teledu, rhaglenni a hysbysebion (mae hyn yn cynnwys rhaglenni a fideo sydd wedi eu darparu ar-lein). Mae ffigurau gwylio Barb, a elwir weithiau yn boblogrwydd rhaglenni, yn cael eu darparu gan banel o gartrefi ledled y DU sy'n cytuno i adael i ni gasglu gwybodaeth am yr holl raglenni teledu sy'n cael eu gwylio.

## Ynghylch Ipsos

Mae Ipsos yn gwmni ymchwil annibynnol. Rydym yn dewis y cartrefi ar hap ac yn gofyn i gyfwelwyr ymweld â'r aelwyd hon i ofyn a fyddai'r aelwyd yn fodlon cwblhau cyfweliad Arolwg Sefydliad Barb.

Mae Barb ac Ipsos yn gyd-gyfrifol o ran y data sydd gan Ipsos amdanoch chi.

## Sut ydw i'n gwybod eich bod yn ddilys?

Mae Ipsos yn gwmni partner i'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS) yn y Deyrnas Unedig ac yn gweithio yn ôl eu cod ymddygiad, a sefydlwyd i ddiogelu buddiannau'r cyhoedd. Rhaid i bob cyfwelydd Ipsos gario prawf hunaniaeth swyddogol.

Gallwch ffonio'r MRS gan ddefnyddio'r rhif Rhadffôn 0800 975 9596 i ddilysu bod Ipsos yn asiant ymchwil i'r farchnad diffuant.

## A fydd rhywun yn ceisio gwerthu rhywbeth i mi?

Na, dim o gwbl. Mae Ipsos yn sefydliad ymchwil marchnad profiadol a phroffesiynol. Mae defnyddio'r cyfweliad at ddibenion gwerthu yn erbyn ein moeseg ac yn erbyn Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.

## Pam mae angen fy manylion cyswllt arnoch chi?

Fel bod gennym gofnod o gyda phwy oedd y cyfweliad at ddibenion rheoli ansawdd ac i sicrhau bod y cyfweliad yn cael ei gynnal yn unol â rheolau Cymdeithas Ymchwil i'r Farchnad. Mae'r holl ddata a gesglir gennym yn dod o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac rydym hefyd wedi'n hachredu â 'safon aur' diogelwch gwybodaeth ISO 27001 ar gyfer diogelwch data. Bydd eich manylion yn cael eu storio'n ddiogel, yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol a'u defnyddio at ddibenion ymchwil yn unig.

## Pam fi?

Mae ymateb i'r arolwg hwn yn hollol wirfoddol a rhoddir unrhyw atebion â'ch caniatâd. Rydym yn nodi ac yn galw ar fwy nag 80,000 o aelwydydd bob blwyddyn, pob un wedi'i ddewis ar hap, i ofyn am arferion gwylio a'r offer teledu y maent yn berchen arnynt. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod ein harolwg wir yn cynrychioli holl boblogaeth y Deyrnas Unedig. Oherwydd hyn, mae pob aelwyd yn bwysig i ni; po fwyaf o bobl sy'n dweud 'Ie' wrth gyfweliad, p'un a ydynt yn berchen ar set deledu neu beidio neu'n gwylio unrhyw raglenni teledu, y mwyaf cynrychioliadol fydd y canlyniadau.

## Beth rydyn ni'n ei gasglu a beth rydyn ni'n ei wneud ag ef

Rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig bwysig amdanoch chi ac aelodau eraill o'ch aelwyd megis rhyw, oedran, statws gwaith a chefndir ethnig. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth am yr offer sydd gennych y gellir eu defnyddio i wylio cynnwys teledu, megis setiau teledu a dyfeisiau eraill sy'n gallu cysylltu â'r rhyngrwyd. Defnyddir y wybodaeth hon i greu darlun clir o sut y gall poblogaeth y DU gael mynediad at gynnwys teledu yn eu cartrefi eu hunain.

Rydym hefyd yn defnyddio eich data i nodi cartrefi yr hoffem ein helpu ymhellach drwy gytuno i gymryd rhan mewn ymchwil pellach. Ni fyddai unrhyw rwymedigaeth arnoch i gymryd rhan yn hyn ond, os cewch eich dewis yn y modd hwn a bod gennych ddiddordeb, rhoddir esboniad llawn o'r hyn sydd dan sylw.

Os ydych chi wedi cytuno i rywun ailgysylltu â chi efallai y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu defnyddio hefyd i wneud hyn.

## Ein sail gyfreithiol dros brosesu'ch data personol

Mae'n ofynnol i ni (Ipsos a Barb) yn ôl y gyfraith i nodi ar ba sail gyfreithiol rydym yn prosesu eich data personol.

Rydym yn prosesu eich data ar sail 'caniatâd penodol'. Rydych yn cytuno i ddarparu'r data hwn at ddiben asesu addasrwydd cwblhau cyfweliad wyneb yn wyneb yn unig. Ni ddefnyddir data a ddarperir at ddibenion sgrinio fel rhan o'r prif arolwg na'i gynnwys mewn unrhyw un o'r canlyniadau a adroddir.

Rydym yn prosesu'r rhan fwyaf o'ch data personol ar sail 'buddiannau cyfreithlon'.

Mae gan Barb ddiddordeb cyfreithlon mewn bod eisiau cynhyrchu ffigurau gwylio ar gyfer rhaglenni teledu a hysbysebion. Prosesu eich data personol yw'r dull angenrheidiol o gynhyrchu ffigurau gwylio sy'n gywir ac yn ddibynadwy.

Mae Ipsos yn prosesu eich data personol er mwyn hyrwyddo buddiannau cyfreithlon Barb a'n buddiannau cyfreithlon ein hunain wrth ddarparu gwasanaethau ymchwil i Barb.

Mae Ipsos hefyd yn casglu data personol sy'n cynnwys manylion cefndir ethnig, iechyd ac anableddau. Mae'r rhain yn 'gategorïau arbennig' o ddata personol y mae'n ofynnol i ni gael sail gyfreithiol ychwanegol ar eu cyfer ar gyfer prosesu. Ein sail gyfreithiol ychwanegol ar gyfer y categorïau arbennig hyn yw 'dibenion ystadegol'. Mae prosesu'r categorïau hyn o ddata personol yn angenrheidiol i gynhyrchu ystadegau y gall darlledwyr eu defnyddio i gyfrifo pa mor dda y mae eu rhaglenni'n darparu ar gyfer gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

## Gyda phwy rydym yn rhannu eich data personol

Ni fydd eich data personol yn cael ei rannu ag unrhyw un y tu allan i Ipsos oni bai eich bod wedi cytuno i ymuno â phanel Barb.

Dim ond data dienw ac adroddiadau cyfun na ellir eu defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn y caiff asiantaethau ymchwil a gomisiynwyd gan Barb.